# PWYLLGOR CRAFFU POLISI AC ADNODDAU

Dydd Mercher, 8 Chwefror 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D.W.H. Richards (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, G. Davies, T. Devichand, J.S. Edmunds, W.J.W. Evans, J.K. Howell, A.W. Jones, A. Lenny, D. Price, R. Thomas a D.E. Williams

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr D.M. Jenkins, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau (Dirprwy Arweinydd)

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
C. Moore, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol;
N. Daniel, Pennaeth TGCh;
H. Morgan, Rheolwr Datblygu Economaidd;
G. Davies, Swyddog Rheoli'r Trysorlys;
R. Llewhellin, Swyddog Perfformiad, Llywodraethu a Pholisi;
M.S. Davies, Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd.

**Chamber, County Hall, Carmarthen - 10.00 am - 11.30 am**

## 1. YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd A.G. Morgan.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch buddiannau personol.

## 3. DATGAN CHWIP WAHARDDEDIG

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

## 4. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Nid oedd cwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law.

## 5. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 22 Mawrth 2017.**

## 6. POLISI A STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2017-18

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Polisi a Strategaeth arfaethedig Rheoli'r Trysorlys 2017/18 [a gafodd ei ystyried, hefyd, gan y Bwrdd Gweithredol yn ei gyfarfod ar 6 Chwefror 2017] ac atgoffwyd yr aelodau fod yn rhaid i'r Cyngor, o dan ofynion Côd Ymarfer diwygiedig CIPFA ynghylch Rheoli'r Trysorlys, feddu ar Bolisi Rheoli'r Trysorlys a oedd yn manylu ar bolisïau ac amcanion ei weithgareddau o ran rheoli'r trysorlys. Fe'u hatgoffwyd hefyd fod yn rhaid i'r Cyngor gymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn flynyddol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol yr oedd yn ymwneud â hi. Hefyd, dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2003, roedd yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo ei Ddangosyddion Darbodaeth o ran Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mewn ymateb i ymholiad, cytunodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol i ddosbarthu'r manylion ynghylch sgorio blaenoriaethau yn achos y prosiectau newydd oedd wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf arfaethedig ddiweddaraf.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2017/18 a'r atodiadau cysylltiedig.**

**7. ADRODDIAD CHWARTEROL YNGYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDD DARBODAETH EBRILL 1AF 2016 I RHAGFYR 31AIN 2016**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr Adroddiad Chwarterol ynghylch Dangosyddion Darbodaeth a Rheoli'r Trysorlys am y cyfnod 1 Ebrill – 31 Rhagfyr 2016 [a gafodd ei ystyried, hefyd, gan y Bwrdd Gweithredol yn ei gyfarfod ar 6 Chwefror 2017] i sicrhau bod y gweithgareddau a wnaed yn gyson â gofynion Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2015-16 a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 23 Chwefror, 2016.

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol wybod i'r Pwyllgor fod buddsoddiadau'r Cyngor, dros y cyfnod monitro o 9 mis, wedi rhagori 0.22% ar gyfradd 7 niwrnod LIBID ac wedi rhoi llog gros o £0.232m, sef £110k yn fwy na'r hyn a fyddai wedi'i ennill o dan gyfradd LIBID.

Mewn ymateb i ymholiad, cytunodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol i ymchwilio i weld a oedd awdurdodau lleol eraill yn defnyddio meincnodau tebyg i fonitro eu swyddogaeth Rheoli’r Trysorlys.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad monitro.**

**8. ASESIAD LLESIANT SIR GAERFYRDDIN 2016/17**

Yn unol â'r broses ymgynghori statudol, bu'r Pwyllgor yn ystyried Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin 2016/17 [a gafodd ei adrodd, hefyd, i'r Bwrdd Gweithredol yn ei gyfarfod ar 6 Chwefror 2017] a oedd wedi ei baratoi a'i gymeradwyo gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin o dan ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rhoddodd yr Asesiad drosolwg o natur a sefyllfa llesiant yn Sir Gaerfyrddin; rhoddodd sylw i ddylanwad cadarnhaol a negyddol llesiant a thynnodd sylw at bwyntiau ysgogi posibl neu feysydd oedd yn peri pryder. Er bod yr Asesiad wedi'i strwythuro yn ôl camau bywyd, pwysleisiwyd bod yn rhaid deall, asesu, mesur a gwella llesiant yn Sir Gaerfyrddin mewn modd hyblyg, ac roedd yr adroddiad yn rhoi sylfaen ar gyfer adeiladu darlun cliriach o lesiant yn awr ac yn y dyfodol.

O ran casgliadau'r Asesiad am dlodi, cyfeiriwyd at waith Panel Ymgynghorol yr Awdurdod ynghylch Trechu Tlodi a'r anawsterau a gafodd wrth asesu tlodi mewn ardaloedd gwledig, yr oedd yn hysbys ei fod yn bodoli. Yn benodol, gwnaed y sylw fod angen rhoi pwyslais ar blant bach sy'n byw mewn tlodi mewn ardaloedd gwledig, a rhieni'r plant hyn, gan fod mentrau megis Dechrau'n Deg yn tueddu i fod yn llai hygyrch. Nodwyd bod disgwyl i Carl Sargeant AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, gyhoeddi datganiad ynghylch rhaglenni tlodi Llywodraeth Cymru. Mynegwyd y farn y dylai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gynnal ymchwil penodol ynghylch materion sy'n effeithio ar blant yn gyffredinol, gan ystyried ffordd o fyw a deiet.

O ran y pryderon a fynegwyd yn yr asesiad ynghylch Newid Hinsawdd, cytunodd y swyddogion i gynnwys, yn yr ymateb i'r ymgynghoriad, yr angen i gydnabod cyfraniad Sir Gaerfyrddin at leihau'r effeithiau diolch i nifer y safleoedd ynni amgen sy'n cynnwys technolegau gwynt a haul.

Cyfeiriwyd at yr heriau y tynnodd yr Asesiad sylw atynt, a'r cyfraniad y gallai aelodau etholedig ei wneud wrth helpu i weld beth yw'r anghenion yn eu cymunedau lleol.
Cytunodd y Swyddogion i gael cadarnhad ynghylch yr union resymau am y bwlch o 18 mlynedd rhwng disgwyliad oes y rheiny sy'n hanu o'r cymunedau lleiaf difreintiedig a'r rheiny o'r cymunedau mwyaf difreintiedig. Cytunwyd hefyd i roi sylw i'r awgrym bod angen egluro'n well y 5 cam a restrwyd o dan y pennawd ‘Beth sy'n digwydd yn awr?’.
Awgrymwyd y dylid rhoi pwyslais hefyd ar anghenion oedolion ifanc, y mae llawer ohonynt wedi penderfynu symud o Sir Gaerfyrddin.
Cytunodd swyddogion i ddarparu manylion y tair Ysgol Uwchradd o Sir Gaerfyrddin y cyfeiriwyd atynt yn y Rhestr Termau a ddefnyddiwyd yn yr asesiad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin 2016/17.**

**9. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU**

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad "peidio â chyflwyno".

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**
**9.1 nodi'r adroddiad;**

**9.2 gohirio ystyried Adroddiad Blynyddol 2016 y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus tan ar ôl yr etholiadau sydd i ddod.**

**10. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 11EG IONAWR 2017**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 11 Ionawr 2017 gan eu bod yn gywir.**

_______________________ __________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**